NEWYDDION BRENIG

BRENIG WIND LTD YN CAEL EFFAITH GADARNHAOL AR GYMUNEDAU LLEOL...

Hyd yma, mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd wedi dyfarnu dros £470,000 i grwpiau cymunedol, clybiau a chymdeithasau ers lansio dair blynedd yn ôl.

Mae'r gronfa gwerth £4 miliwn dros 25 mlynedd, yn cefnogi prosiectau cymunedol yn ardal fudd Brenig sy'n cwmpasu ardal ucheldir Hiraethog rhwng Sir Ddinbych a Sir Chonwy.

"Mae Cadwyn Clwyd eisioes wedi dosbarthu £470,189 i fwy na 76 o brosiectau lleol gwahanol ar gyfer ystod o wahanol brosiectau ac wedi eu helpu i drosoli hyd yn oed mwy" meddai Owen Turner o Brenig Wind Ltd.

"Bydd y ceisiadau'n mynd gerbron y panel lleol a fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynnol ar ble a sut mae'r arian yn cael ei wario" ychwanegodd Owen.

Dywedodd Cadeirydd Panel Grant Brenig Wind Ltd a'r ffermwr lleol Llyr Jones "Bu llawer iawn o ddiddordeb yng nghronfa'r fferm wynt ac mae cymaint o sefydliadau lleol eisioes wedi elwa ohoni.
"Mae hwn yn gyfle gwych i grwpiau cymunedol a chymdeithasau lleol sydd angen meddwl yn fawr a bach oherwydd bod yr arian ar gael ar gyfer ystod eang o brosiectau ar draws yr ardal."

Agorodd rownd ymgeisio nesaf Cronfa Budd Cymunedol Brenig ar ddydd Iau 1af o Fedi 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 18fed o Dachwedd 2022. Mae ffurflen gais a chanllawiau ar gael ar Fferm Wynt Brenig – Cadwyn Clwyd – ar gyfer ymholiadau ac arweiniad pellach cysylltwch â brenig@cadwynclwyd.co.uk neu 01490 430 500.

Mae'r ardal gymwys yn ymestyn o Lanelwy yn y gogledd i Maerdy, ger Corwen yn y de, ac o Afon Clwyd yn y dwyrain ar draws Mynydd Hiraethog i Gerrigydrudion a rhannau uchaf Dyffryn Conwy – mae map o'r ardal fudd ar gael ar wefan Cadwyn Clwyd.

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

BRENIG WIND LTD

Flying High yn Dinbych i wneud y mwyaf o gronfa fferm wynt...

Mae clwb trampolinio Flying High i unigolion anabl yn bownsio'n ôl yn dilyn cymorth grant gan gronfa Brenig.

Mae Flying High, sy'n denu aelodau rhwng 6 a 60 oed i'w sesiynnau wythnosol yng Nghanolfan Hamdden Dinbych, wedi defnyddio grant Brenig o £4,104 i brynu trampolin newydd. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i Flying High, y mae ei aelodau yn bownsio bob nos Lun o 5yh, ac yn mwynhau'r wefr o drampolinio.

Dywedodd trysorydd y clwb, Anna Gresty o Prion, sydd gyda mab sy'n aelod rheolaidd o'r clwb: "Mae Flying High wedi bod yn mynd ers ddeng mlynedd ac rydyn ni'n cael pobl yn dod o ardal eang"
"Rydyn ni'n lwcus oherwydd mae gennym ni hyfforddiant ardderchog gan Laurel Morgan a'i thim ac rydyn ni wedi codi arian felly mae gennym ni offer da gan gynnwys ar gyfer aelodau sydd ddim yn gallu cerdded."

Dywedodd Peter Morgan o Rhuthun, y mae ei fab 10 oed, Max, yn mynychu Ysgol Plas Brondyffryn yn Ninbych: "Mae ganddo awtistiaeth ac roedd yn anodd dod o hyd i weithgareddau allgyrsiol y gallai gymryd rhan ynddynt ond mae hyn wedi bod yn berffaith.
"Mae Max wedi bod yn trampolinio ers pedair blynedd ac mae wrth ei fodd. Mae'n ei gadw'n heini ac mae'n cyfarfod â phobl newydd felly mae wedi bod yn dda iawn iddo."

Cneifio Corwen Shears – Brenig yn cefnogi digwyddiad o fri rhyngwladol yn yr ardal leol...

Gyda chymorth grant Brenig Wind o £10,000, daeth digwyddiad Cneifio Corwen Shears yn ôl yn lwyddiannus ar ôl dwy flyedd o absenoldeb oherwydd Covid. Mae'r digwyddiad cneifio rhyngwladol wedi bod yn mynd ers 1989, ond angen cymorth grant ychwanegol i roi hwb i'r digwyddiad y flwyddyn hon a gafodd ei gynnal ar y 30ain o Orffennaf.

Mae gwahanol gystadleuthau o gneifio i gneifio traddodiadol, cenifio cyflym i lapio gwlan yn dennu canoedd o gystadleuwyr o bob pegwn o'r Byd, rhai mor bell i ffwrdd â Seland Newydd ac Awstralia.

Roedd y digwyddiad hefyd yn lwyfan i annog cneifwyr ardal Hiraethog, ochr yn ochr â chneifwyr profiadol y Byd, i gystadlu i ddatblygu eu sgiliau cneifio a thrin gwlân, yn y gobaith o agor drysau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae Cneifio Corwen yn cael ei drefnu gan bwyllgor o wirfoddolwyr lleol, yn rhan o Gylchdaith Cymru, ac yn gyfle i bobl ennill eu lle i fod yn aelod o Dim Cenedlaethol Cymru i gystadlu yng Nghystadleuaeth Cneifio a Thrin Gwlan y Byd. Denodd filoedd o wylwyr dros benwythnos llwyddianus iawn.

Sioeau gwledig eraill a gafodd gefnogaeth Brenig i ailgychwyn ac ail sefydlu eu hunain yn dilyn Covid oedd Sioe Derwen, gyda'r Sioe yn derbyn £653 tuag at offer a Sioe Nantglyn yn derbyn £2,337 tuag at babell fawr. Hefyd, derbyniodd Gwyl 7 yn Llanfairtalhaiarn £7,604 tuag at sefydlu digwyddiad cymunedol newydd i ddod â phobl ynghyd ar ôl Covid.

© Delweddau trwy garedigrwydd gan Lluniau Bwn Jackson

Brenig yn cefnogi Ffermwyr Ifanc Llansannan i gystadlu yn lleol a chenedlaethol!

Roedd Clwb Ffermwyr Ifanc Llansannan yn llwyddiannus yn eu cais am arian gan Gronfa Brenig Wind Ltd. Rhan o beth oedd y grwp ei angen oedd cyfarpar i allu cystadlu yn deg yn erbyn clybiau mwy yn y Cystadleuthau Maes a Rali sirol.

Derbyniodd Glwb Ffermwyr Ifanc Llansannan grant Cronfa Brenig i brynu rhaff ac esgidiau tynnu rhaff i allu ymarfer cyn Rali Ffermwyr Ifanc. Bu'n llwyddiant ysgubol, gyda'r cyfarpar yn talu ar ei ganfed - gan i'r tîm dan-18 ennill yn y Rali Sirol a mynd ymlaen i'r gystadleuaeth tynnu rhaff yn genedlaethol yn y Sioe Frenhinol. Rhan arall o'r grant oedd ffrâm i hysbysebu eu rali sirol, a wnaed gan Iolo Edwards, busnes gwledig lleol. Bu llwyddiant hefyd ar lefel sirol a chenedlaethol gyda gwaith maes, ble arianodd Brenig offer megis cotiau arddangos.

Cae Chwaraeon Newydd ei Adnewyddu yng Nghherrigydrudion...

Fe dderbyniodd Cymuned Cerrigydrudion £9,588 o gymorth Cronfa Brenig Wind Ltd tuag at gae chwaraeon pob tywydd sydd newydd gael ei adnewyddu. Cafodd y cae blaenorol, a oedd dros ugain oed, ei ddifrodi ac roedd yn ddwrlawn gyda phyllau mwd mewn tywydd gwlyb. Mae'r cae newydd yn adnodd i bawb yn y pentref ac o fudd i bobl o bob oed. Mae plant yr ysgol yn cael defydd dyddiol o'r cae gyda'r Cylch Meithrin hefyd yn cael mynediad iddo.

Mae'r cae yn cael ei ddefnyddio'n gyson gyda'r nos wrth i dimau ieuenctid chwarae pêl-droed. Dywedodd rhiant lleol "Roedd y lle yn llawn o blant a phobl ifanc o bob rhan o ardal Uwchaled yn cael hwyl, roedd yn hyfryd eu gweld yn mwynhau eu hunain ac yn defnyddio'r cyfleuster newydd. Rydym yn ddiolchgar i Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd am y gefnogaeth."

Brenig yn Cefngoi Creadigrwydd ar faes Eisteddfod yr Urdd

Cymerodd pobl ifanc ran mewn theatr stryd newydd yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Gyda chefnogaeth Cronfa Brenig o £9,950 llwyddwyd i gynnal gweithdai theatr, celf ac iechyd meddwl gydag artistiaid profiadol yn arwain. Plethwyd yr holl weithdai at ei gilydd er mwyn llwyfannu perfformiadau o ansawdd uchel ar faes Eisteddfod yr Urdd.

Cafwyd casgliad o weithdai arbrofol ac egnïol oedd yn gyfle i'r unigolion ddatblygu hyder, hunaniaeth a chreadigrwydd.

Mwy o newyddion ynglŷn â phrosiectau eraill a gefnogir gan Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cynnwys:

Cefnogi Clwb Rygbi Rhuthun

Mae Clwb Rygbi Rhuthun wedi derbyn £25,000 o arian Brenig er mwyn codi sied storio newydd at ddefnydd yr adran iau. Bydd hyn yn caniatau storio offer yn lân ac yn daclus ar gyfer aelodau a gwirfoddolwyr y clwb yn ogystal â grwpiau eraill sy'n defnyddio adnoddau ac isadeiledd y clwb.

Cyfleusterau Newydd yng Nghanolfan Uwchaled

Derbyniodd Canolfan Uwchaled £9,587 tuag at adnewyddu'r bar coffi a storfa gegin ar gyfer y ganolfan gymunedol. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr yn ganolfan gymunedol i gael cyfleusterau cegin newydd sbon.

Diffibriliwr achub bywydau ar gyfer Cymunedau Nantglyn

Derbyniodd Cyngor Cymuned Nantglyn £2,002 gan Brenig er mwyn gosod diffibriliwr yn y ciosg ffôn segur a fydd yn darparu cymorth achub bywyd hanfodol i' rhai y neu hawr o angen.

Prosiect Treftadaeth yn Llanrhaeadr

Derbyniodd Ffynnon Sant Dyfnog, Llanrhaeadr, £3,161 tuag at adeiladu llwybr ar y safle cymunedol hanesyddol. Mae ffynnon Sant Dyfnod yn lle mae bobl yn dod ar bererindod, yn fan prydferth lleol ac yn hafan i fywyd gwyllt.

Cefnogi Clwb Pel-droed Henllan

Derbyniodd Clwb Pel-droed Henllan £3,148 er mwyn prynnu offer hyfforddi newydd ar gyfer holl dimau plant ac ieuenctid y clwb. Mae dros 150 o blant a phobl ifanc (merched a bechgyn) 5 i 16 oed yn aelodau o Glwb Pel-Droed Ieuenctid Henllan a byddant yn elwa o'r offer hyfforddi newydd.

Cefnogi Sgiliau Digidol i Blant

Derbyniodd Ysgol Carreg Emlyn, Clocaenog £3,780 i brynu 15 Ipad. Defnyddir yr Ipads yn y clwb ar ôl ysgol i ddysgu sgiliau codio i'r plant a hefyd i ffilmio, creu lluniau yn ogystal â chwarae gemau. Maent hefyd yn cael eu defnyddio gan Gylch Meithrin Clocaenog, clwb Ti a Fi, Clwb Brecwast ac maent hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned ehangach.

Gwella Cyfleusterau Cymunedol yn Groes

Derbyniodd neuadd y Plwyf Bylchau, Groes, £18,523 tuag at welliannau i ffabrig yr adeilad, lloriau newydd, uwchraddio'r toiledau a gosod cegin newydd. Bydd y gwelliannau yn caniatau i'r neuadd barhau i ddarparu canolbwynt canolog i'r gymuned gyfan.

Canu corawl yn Llansannan

Dyfarnwyd £9,064 i Gôr Meibion Bro Aled, Llansannan i brynnu system llwyfannu modiwlar a threlar i ddarparu llwyfan symudol addas a diogel i'r côr.

Brenig yn cefnogi chwarae i Gylch Meithrin Prion

Derbyniodd Cylch Meithrin Prion £9,102 i brynu adnoddau ac offer chwarae wedi'w ddiweddaru. Mae hyn wedi galluogi'r cylch i gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf I'r plant sy'n mynychu.

Mae rownd ymgeisio nesaf Cronfa Budd Cymunedol Brenig yn agor Ddydd Iau 1af o Fedi 2022, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 18fed o Dachwedd 2022.

CANLLAWIAU CYLLIDO

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

BRENIG WIND LTD

Yr Ardal Fudd:

- Yr ardal fudd yw'r cymunedau hynny yn Sir Ddinbych a Chonwy sydd agosaf at safle Brenig Wind Ltd.
- Y cymunedau hynny sydd o fewn radiws o 10 cilomedr o Fferm Wynt Brenig fydd yn creu'r ardal fudd.
- Mae'n bosibl y gellir cefnogi prosiectau yn yr ardal allanol o radiws 15 cilomedr, ar yr amod eu bod yn gallu arddangos yn glir sut y gallant greu budd i'r cymunedau yn yr ardal 10 cilomedr fewnol.
- Mae map o'r ardal fudd ar gael ar www.cadwynclwyd.co.uk

Trothwyon y Grantiau

- grant bychan o hyd at £10,000, a
- grant mawr o £10,000 to £50,000

Pwy All Wneud Cais?

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cynghorau Cymuned / Cynghorau Tref
- Mentrau cymdeithasol, ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw (gan gynnwys undebau credyd)
- Cwmnïau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau y mae'r gymuned yn berchen arnynt
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau'r trydydd sector

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cael ei gweinyddu gan Cadwyn Clwyd. Am wybodaeth bellach cysylltwch â breing@cadwynclwyd.co.uk / 01490 340500 / www.cadwynclwyd.co.uk